



# Llais y Llan Rhafyr 2019

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24<sup>th</sup> Ionawr 2020

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

Wrth nesai at derfyn blwyddyn arall mae'n briodol meddwl am bobl sydd wedi gadael yr ardal, a'r rhai gollwyd drwy farwolaeth. Cadwn atgofion melys ohonynt.

Mae hefyd yn amser priodol i groesawu newydd ddyfodiad i'n plith. Gobeithio byddwch yn ymgartrefu'n hwylus, ac y byddwch yn ymwneud a holl weithgareddau'r pentref a'r ardal.

Nadolig Llawen i bawb a gobeithio y gwelwn flwyddyn newydd lewyrchus ac iachus.

Cyfarchion oddi wrth Y Gyfnewidfa Wybodaeth yn Llanpumsaint

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Lais y Llan

Santa's Grotto

Grotto Sion Corn

## GORYMDAITH NOSWYL NADOLIG SION CORN

Dechrau yn Nant yr Ynys am 1 yh, Rhagfyr 24<sup>th</sup>, a gorffen yn Neuadd Llanpumsaint

### CHRISTMAS EVE SANTA PARADE

Start at Nant yr Ynys at 1pm, December 24<sup>th</sup>, and finish at Llanpumsaint Hall

Te a Choffi Mins Peis

Tea & Coffee Mince Pies

Proceeds towards Special Care Baby Unit (SCBU), Glangwili Hospital and Llanpumsaint Welfare & Recreation Association (The Park)

Ei w tuag at Uned Gofal Arbennig Babanoed, Ysbyty Glangwili a Chymdeithas Lles & Hamdden Llanpumsaint (Y Parc)

32

GO

76

13

24

15

GO

Xmas BINGO

10/12/2019

7:00pm

AT RAILWAY INN, LLANPUMSAINT

£15pp 10 GAMES with CURRY & CHIPS & One for the road Game. Winner takes all cash prize

cwnfest@gmail.com



## Eglwys Llanllawddog

### Marchnad Fisol Monthly Market

Ail Sadwrn bob mis  
Second Saturday every month

10-12am

10/08/19, 14/09/19, 12/10/19

Neuadd Llanllawddog  
Llanllawddog Church Hall.



Crefftwyr Lleol a nwyddau  
Local crafts and produce

Bric a brac

Llyfrau/ books

I gael stondin (£5), cysylltwch â  
If you require a stall (£5), contact  
[Fran.j.dixon@btinternet.com](mailto:Fran.j.dixon@btinternet.com)  
078 151 47239



Arwyn Thomas yn Tenovus Caerfyrddin wedi iddo gyflwyno siec o £2,000. Ffrwyth nifer o gyfraniadau a gwerthiant llyfrau.



Y Band Iwcalili - Tafarn Nantcelyn



Aled Edwards a Dafydd Howells



Argae adferwyd ger y Gerddi Botaneg  
Llyn yn llawn



Gyda phentwr o sbwriel coed a phlastig mae'r pysgod n ei chael hi'n anodd cyrraedd eu safleoedd dodwy.

## **Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf**

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa  
Cylch y Pentref Dydd Mawrth Yn yr Eglwys 2.00 – 3.30  
Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643  
Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4  
Cadw'n Heinu 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd (o Fedi 12)  
Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Mercher 10.45 – 11.45, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830  
Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Gwener 11.15 – 12.15 Neuadd Bronwydd  
Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Mawrth 2.00 - 4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 Bryn y Wawr  
Merched y Wawr Trydydd Nos Llun o'r Mis yn y Neuadd Goffa  
Ail fore Sadwrn bob mis -Y Farchnad Fisol, 10.00 – 12.00 Neuadd Eglwys Llanllawddog  
Ti a Fi pob Bore Gwener 10.00 - 12.00 Neuadd Bronwydd  
Rhagfyr 10 Nos Fawrth Bingo Tafarn £15 y pen Tafarn Rheilffordd  
Rhagfyr 11 Dydd Mercher taith Ddirgel am Ginio Nadolig Clwbgwili 60  
Rhagfyr 11 Dydd Mercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa  
Rhagfyr 12 Dydd Iau 3.30 – 5.00 Eglwys Agored Llanpumsaint  
Rhagfyr 13 Bore Gwener Cyngerdd Nadolig Clych Meithryn Neuadd Bronwydd  
Rhagfyr 15 Dydd Sul 1.30 Gwasanaeth Nadolig Capel Ffynnonhenri  
Rhagfyr 18 Dydd Llun 3.30 – 5.00 Eglwys Agored Llanpumsaint  
Rhagfyr 22 Dydd Sul 11.00 Gwasanaeth Preseb Eglwys Llanpumsaint  
Rhagfyr 22 Dydd Sul 2.00 Crwdd Carolau Dwy-ieith Caersalem  
Rhagfyr 22 Nos Sul 6.00 Gwasanaethau Carolau Sant Celynin Bronwydd  
Rhagfyr 24 Dydd Mawrth 1.00 Gorymdaith Sion Corn Nant yr Ynys  
Rhagfyr 24 Nos Fawrth Gwasanaeth 7.00 Llanllawddog, 9.00 Llanpumsaint, 11.00 St Celynin  
Rhagfyr 29 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Hollybrook  
Ionawr 8 Bore Mercher 10.30 Tenis Bwrdd Neuadd Goffa Llanpumsaint  
Ionawr 8 Nos Fercher 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa  
Ionawr 16 Dydd Llun 3.30 – 5.00 Eglwys Agored Llanpumsaint  
Ionawr 22 Nos Fercher 6.30 Cyfarfod Cynoeddus Siop Neuadd Goffa Llanpumsaint  
Ionawr 25 Dydd Sadwrn 10.00 – 4.00 Cyflwyno Diwrnod Ymaelodi Skanda Vale Hospice  
Ionawr 25 Dydd Sadwrn 10.30 Gwasanaeth Coffa Holocaust Eglwys Llanpumsaint  
Ionawr 26 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd  
Ionawr 26 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Hollybrook  
Ionawr 27 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwydd  
Chwefror 1 Nos Sadwrn Cyngerdd Côr Llanpumsaint Capel Tabernacl  
Chwefror 5 Dydd Fercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa  
Chwefror 14 Nos Wener 7.30 Dawns Hynafol Arbennig Neuadd Bancyfelin  
Chwefror 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd  
Chwefror 23 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Hollybrook  
Chwefror 24 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwydd  
Chwefror 29 Dydd Sadwrn 10.30 CCB Cymdeithas Rhandiroedd  
Mawrth 18 Dydd Fercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

## Gorymdaith Sion Corn Noswyd Nadolig

Bydd yr Orymdeithiwn gynnwys Sion Corn ar ei Gart Llusg gyda'i weision.

Cychwyn o Nantyrynys am 1o'r gloch ac ymlaen i'r Railwe a Bryn y Wawr.

Penbontbren - Llandre - Yr Eglwys - Bro Cerwyn a Pharc Celynin.

Cenir carolau ar bob un safle a gwneir casgliadau bwced.

Bydd yr orymdaith yn gorffen yn y Neuadd Goffa ac yno fydd Sion Corn yn anrhegu'r plant. Y plant wnaeth ymuno'r yr orymdaith fydd y cynta' i weld Sion Corn.

Bydd lluniaeth ar gael yn y Neuadd (Te, Coffi, pop, mins peis a chacennau). Diod a chacen am £1.

Bydd raffl yn digwydd am bunt y stribyn

Bydd elw'r casgliadau o'r bwcedi, y raffl a'r lluniaeth, yn cael ei rannu rhwng Elusen ddewisol y Pwyllgor Lles ac Hamdden sef Uned Gofal Dwys Babanod Ysbyty Glangwili, a chynnal a Chadw'r Cae Chwarae.

Diolch yn fawr i Matthew Jones am noddi'r digwyddiad.

## Siop Gymunedol i Lanpumsaint - mae angen eich barn chi!

Fel y bydd rhai ohonoch eisoes yn gwybod, mae grŵp o drigolion wedi bod yn archwilio'r syniad o gael siop gymunedol yn y pentref.

Yn ddiweddar, rydym wedi sicrhau cyllid gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa i gyflogi ymgynghorydd (Roxanne Treacy o gwmni Redford Research) i edrych yn fanylach ar yr hyn y byddai siop gymunedol yn ei olygu, sut y byddai'r gymuned yn ei defnyddio a safleoedd posibl.

Lluniwyd holiadur fel y cam cyntaf yn y broses hon. Mae arnom angen gwybod beth yw eich barn am yr hyn y gallai'r siop gymunedol ei ddarparu a beth fyddch chi'n ei gefnogi.

Da chi, byddwch mor onest a realistig â phosibl wrth ateb!

Byddwn yn trin eich atebion yn gyfrinachol gan y bydd yn holol ddienw, onid ydych yn dymuno rhoi eich enw ar y diwedd.

## Sut i lenwi'r holiadur

Ychydig funudau ddylai gymryd i lenwi'r holiadur ar-lein a gallwch wneud hynny trwy glicio ar y ddolen hon:  
<https://forms.gle/FPGB6otScG6Mx68E8>

Bydd yr arolwg hwn yn cau ar 10 Ionawr 2020

Cyhoeddir y canlyniadau a byddant yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhelir ddydd Mercher 22 Ionawr yn Neuadd Goffa Llanpumsaint am 6.30pm. Mae croeso i bawb ddod i'r cyfarfod.

Diolch yn fawr iawn ymlaen llaw am eich cydweithrediad ac edrychwn ymlaen at rannu ein cynnydd gyda chi.

*Os hoffech gopi caled o'r holiadur, neu unrhyw wybodaeth bellach, mae croeso i chi gysylltu â*

*Roxanne: [roxtreacy@icloud.com](mailto:roxtreacy@icloud.com) [roxtreacy@icloud.com](mailto:roxtreacy@icloud.com) neu 07972 924 945*

## Dawns Hynafol Arbennig - No Mean Biscuit.

Ar ôl blynnyddoedd o gynnal Dawns a gwledd yn Llanpumsaint tuag Ionawr neu Chwefror, bydd "No Mean Bisuit" yn symud i Neuadd Bancyfelin ar nos Sant Ffolant, Chwefror 14eg, flwyddyn nesaf. Bydd ffurf y noson hefyd yn wahanol i'r cynt, oherwydd byddwn yn gofyn i bobl ddod a'u bwyd a'u diod eu hunain. Bydd hyn yn caniatáu mwy o amser i'r gerddoriaeth ac i ddawnsio. Fe fydd yna raffl fel arfer gyda'r elw'n mynd i Achos Da. Os wnaethoch fwynhau yn y gorffennol yna dewch i gefnogi, a bydd y tocyrrau ar werth am £8 wrth y drws. Gallwch weld y Band ar Facebook. Ymholaau i Barry ar 07877 834133.

## Newyddion am Sgamiau

Os ydych yn trafod busnes ar y lein efallai i chi glywed am y dull dau gam o wiri sydd yn cael ei argymhell gan y Banciau. Bydd hwn yn cynnwys eich cyfrinair a rhif cof all fod yn nifer o rifau. Rhai wythnosau'n 'nol 'roedd Val am dderbyn galwad wrth ryw sefydliad fel rhan o'r dull dau gam diogel. Gan fod gennym ddyfais i atal galwadau, rhaid oedd i mi ddatgysylltu hwn er mwyn derbyn yr alwad allanol o'r sefydliad. Mwy am hynny maes o law!

Yn syth wedyn dyma alwad ffug yn dod trwyddo sydd yn brawf fod y teclyn yn gwneud ei waith. Felly mae'r BT Premium Call Blocker yn gweithio ac yn cyflawni'r hyn mae e'n honni. Os daw galwad nad yw yn eich Llyfr Ffôn rhaid iddynt ddatgan pwy ydynt ac yna gwasgu'r botwm \*.

Ni all galwad wedi ei hawtomeiddio, hyd yn oed un dilys o Fanc wasgu'r botwm \* i ddod trwyddo atoch, felly cewch lonydd. Os wna'r galwr roi enw cyn gwasgu'r botwm \* yna caiff ddod trwyddo, ond chi sy'n penderfynu o hyd pun a'i chi moyn derbyn yr alwad. Gall galw 'nol rhif o'r llyfr ffon fod ychydig yn drafferthus ond cyfarwyddwch yn gloi iawn. Pris teg yw hyn i dalu am lonyddwch, oherwydd ar ôl i ni osod y blociwr galwadau gan BT ni chawsom ragor o alwadau ffug a dienw.

## Newyddion brys!

Ers llunio'r erthygl hon daeth rhaglen deledu awr o hyd ar Sianel 5 ar Nos Fawrth 26ain o Dachwedd. Yr enw arni oedd Sut i roi terfyn ar eich galwadau di-angen. Dangoswyd fod rhai o driciau'r twyllwyr a'r troseddwyr yn anhygoel e.e. galwadau o gyfrifiaduron, pob math gynllwyniai, gyda rhestrau rhifau ffôn yn cael ei phrynu am y nesaf peth i ddim. I'r rhai ohonoch sy'n gwneud defnydd o'r We dyma raglen gwerth ei gweld. Felly ewch i Sianel 5 ar "Catch-up" - <https://www.channel5.com> Fe ddysgwch wedyn ar shwd i roi terfyn ar eich galwadau diangen. Gan obeithio y bydd hyn o gymorth i chi! Nadolig.

Gobeithio fod hyn o ryw gymorth, felly Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda. Eich cyfaill Dave.

## Tenis Bwrdd yn y Neuadd

Mae yna Fwrdd tenis penigamp yng nghwpwrdd y Neuadd, ac mae rhai ohonom yn bwriadu sefydlu clwb bach anffurfiol yn y flwyddyn newydd. Byddwn yn agored i bob oed beth bynnag ei safon gan gynnwys unigolion sydd hen chwarae erioed o'r blaen. I roi syniad o'r safon i chi, wedi gosod y ford lan, a heb chwarae ers 35 mlynedd, treuliwyd y rhan fwyaf o'r amser yn cwrso'r bel dros lawr y Neuadd.

Prin fod angen atgoffa rhai ohonoch o oed arbennig pa mor werthfawr yw celloedd yr amenydd sydd wedi goroesi. A 'does 'na ddim byd yn well iddynt nag ychydig o ganolbwytio llaw a llygad, a chlonc fach a choffi wrth aros eich tro. Deallaf fod yna rwyble ford arall wedi ei rhoi o'r neilltu, un fu'n eiddo i'r Clwb Ieuencnid unwaith. Felly os yw'r syniad yn boblogaidd gellir ychwanegu ail fwrdd.

Byddwn yn cychwyn y fenter am hanner awr wedi deg fore Mercher ar y 8fed o Ionawr. Gobeithio eich gweld yno. Mwy o wybodaeth oddi wrth Ann Pettitt, 07884 062540

## Dewinwyr Gorllewin Cymru - Dyddiau'r Dyfodol –

Dydd Sul 26ain Ionawr 2020 – Julie Cuil CPH MARTH - Profi Alergedd.

Sul 23ain Chwefror Wendy Harding - Cyflwyniad i Sêr- Ddewiniaeth

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol a hawdd ei ddysgu a gwnaeth darddu o'r Aifft. Dewisa nifer o gwmniau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rhai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45 y.p. ac am £6 cewch baned yn y fargen. Does dim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547

## **CYLCH MEITHRIN BRONWYDD**

Mae'r plant wedi bod yn brysur iawn y tymor hwn. Yn yr hanner tymor cyntaf, bu'r plant yn mwynhau gweithio ar y thema “‘Deinosoriaid” ac wedi cael hwyl yn gwneud llawer o weithgareddau gwahanol yn seiliedig ar y thema hon. Roedd y plant wedi mwynhau gwrando ar wahanol storau, ac yn ymestyn eu sgiliau iaith drwy ail-adrodd y storau a dod i adnabod y cymeriadau. Roedd y plant wedi mwynhau arbrofi gyda deunyddiau cyffredin a geir yn y gegin i greu effaith llosgfynydd. Cafwyd mwynhad hefyd yn coginio pitsa olion traed deinosor a bisgedi deinosor.

Yn yr hanner tymor hwn, y themau yw Tan Gwyllt, Diwali, y Gaeaf, a'r Nadolig. Y llyfr stori am y Nadolig yw “Y Bugail Blin” Mae'r plant wrthi nawr yn paratoi ar gyfer ein Cyngerdd Nadolig ar y 13eg o Ragfyr yn Neuadd Bronwydd. Cynhelir bore coffi i deuluoedd a ffrindiau, a bydd stondinau ar gael i wneud tipyn o siopa Nadolig. Croeso cynnes i bawb. Verona

### **Cymdeithas Rhandiroedd Llanpumsaint**

Blwyddyn dda o gynnydd a llwyddiant i'r Gymdeithas gydag un gorchudd poli wedi ei newid (mwy flwyddyn nesaf), prynwyd offer garddio, rhai at ddefnydd plant, a chynyddwyd y cyflenwad dwr ar y safle. Cynhelir ein Cyfarfod Blynnyddol ar y safle ar ddydd Sadwrn 29ain o Chwefror 2020 am 10.30yb, pan gofrestrir aelodau, hen a newydd. Tal Aelodaeth yw £35 am y flwyddyn gyntaf ond £25 wedyn. Darganfyddais yn ddiweddar, ond eto heb gadarnhaodd fod Ian Fleming, creawdwr yr Asiant Cudd hynny, wedi ysgrifennu llyfrau ar Arddio. Y cyntaf ar chwynnu oedd Doctor Hoe. Yna un ar sut i baratoi'r pridd am y tymor newydd - You Only Dig Twice - ac yn fuan wedyn ei olynydd - Dig another day-. Ysgrifennodd hefyd ar sut i gynaeafi'r cynnrych gorau o'i goed ffrwythau - The man with the golden plum -. Mae'r diweddaraf yn canolbwytio ar sut i gynnal gardd lysiau iachus - No time ti die -. Er hynny ei lyfr mwyaf dadleuol fu ar sut i arddio yn y nos - âd un o'r uchod. Lleolir y Rhandir ar safle'r hen orsaf drenau go dderbyn a thafarn Y Railwe. Cysylltwch â Keith 253375 neu Ray 253157 am wybodaeth bellach neu ymaelodi.

### **Clwb Gwili Chwedeg**

Ganol mis Tachwedd aeth 37 aelod ar y wibdaith Twrci a Thinsel am bum diwrnod. Aethom i aros yng ngwesty'r Esplanade yn Cei Newydd Cernyw a chael amser hyfryd yno unwaith eto. Buom am deithiau i weld Cei Newydd, Truro a marchnad fewnol Par yn ystod ein hymweliad. Mi wnaeth nifer o'r aelodau wisgo lan mewn dillad ffansi gogyfer a'r parti blwyddyn newydd, a chafwyd tipyn sbort. Ein siaradwr y mis hwn yw sef Ralph Carpenter ac mae'n achlysur arbennig cael un o'n haelodau i annerch. Hwn fydd ein cyfarfod olaf yn 2019 oherwydd rhawn flaenoriaeth i'r Daith Ddirgel a'r Cinio Nadolig ar Ddydd Mercher 11eg o Ragfyr.

Daw'r cyfarfod nesaf yn Neuadd Bronwydd ar ddydd Llun Ionawr 27ain pan fydd Jeremy John yn dychwelid i siarad am Awyrenwyr Benywaidd Cynnar.

Bydd cyfarfod Chwefror 24ain yn dathlu Gŵyl Dewi, felly dowch a'ch bowlen a'ch llwy oherwydd fydd y Cawl ag ati'n barod. Er bod ein haelodaeth bellach wedi croesi'r cant mae yna groeso i rai newydd o hyd i ymuno a ni ar y dydd Llun ola' o'r mis bob tro. Y gost yw £7.50 am y flwyddyn a cheir gwybodaeth bellach oddi wrth Val Giles 01267 281194, Ysgrifenyddes; sydd hefyd yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

## Clwb Cant Llanpumsaint

Dyma enillwyr Hydref, Tachwedd, a'r un fawr Nadolig ac Ionawr 2020 dynnwyd gan y Pwyllgor Lles a Hamdden yn ddiweddar.

### Hydref

£20 - Rhif 91 Ray Davies \*\*\* £15 - Rhif 36 John Frandis \*\*\* £10 - Rhif 45 Sally Chitty

### Tachwedd

£20 - Rhif 18 Wil Fitzsimon \*\*\* £15 - Rhif 25 Sandy Mather \*\*\* £10 - Rhif 68 Gwen Rees-Jones.

### Gwobrau Mawr Nadolig

£100 - Rhif 67 Wayne Goman \*\*\* £50 - Rhif 33 Dave Robinson \*\*\* £25 - Rhif 68 Gwen Rees-Jones \*\*\* £25 - Rhif 72 Carolyn Atkinson \*\*\* £15 - Rhif 6 Cathy Williams \*\*\* £15 - Rhif 23 David Icke \*\*\* £10 Rhif 98 Frorrie Rees \*\*\* £10 - Rhif 107 Neville Griffiths \*\*\* £10 - Rhif 19 Kevin Mably \*\*\* £10 - Rhif 83 Sandra Powell \*\*\* £10 - Rhif 17 Sylvia Davies \*\*\* £10 - Rhif 40 Dexter Penfold \*\*\* £10 Rhif 61 Pamela Jones \*\*\* £10 - Rhif 62 Emma Clift \*\*\* £10 - Rhif 15 Danny Davies.

### Ionawr 2020

£20 - Rhif 83 Sandra Powell \*\*\* £15 - Rhif 17 Elsie Jones \*\*\* £10 - Rhif 89 Carolyn Smethurst. Llongyfarchwn yr holl enillwyr gan gydymdeimlo a'r gweddill o'n haelodau. Yn ôl yr arfer ni fyddwn yn tynnu yn Chwefror, ond byddaf yn gwneud y cyfrifon ac yna dechrau casglu tanysgrifwyr (£12) i'r cyfnod nesaf fydd yn cychwyn ym Mawrth 2020. Diolch am y gefnogaeth hyd yma. Cofiwch fod yr holl elw yn mynd i'r Pwyllgor Lles ac Adloniant, at gynnal a chadw 'r Cae Chwarae, Lle Chwarae'r plant a chyfarpar arall.

Eleni cawsom 112 aelod ond fy nod yw cyrraedd 120. Felly croeso i aelodau newydd – rhowch ganiad ffon i fi ar 01267 253524 unrhyw bryd. Yn y cyfamser dymunaf Nadolig bendigedig a Blwyddyn Newydd iachus a hapus.

Derick Lock – Trysorydd Y Clwb Cant

### Adfer Tirwedd Rhaglywiaeth yn y Gerddi botaneg Genedlaethol Taith yr Het Galed

Dewch i ymuno a gweithlu'r fenter mewn taith het galed i'r gwaith adfer o amgylch y llyn. Cewch ddysgu mwy hefyd am barcdir hanesyddol Syr William Paxton a chael golwg diweddaraf ar gynnydd y cynllun Adfer Tirwedd Rhaglywiaeth.

Bydd y daith ddwy awr yn dechrau am 11yb o ochr orllewinol y Tŷ Gwydr Mawr. Gwisgwch yn gadarn am eich traed oherwydd i'r dirwedd fod yn anwastad mewn mannau. Oherwydd bod cyfyngu ar y niferoedd ffoniwch 01558 667157 neu Joanne [Evans@gardenofwales.org.uk](mailto:Evans@gardenofwales.org.uk)

[Evans@gardenofwales.org.uk](mailto:Evans@gardenofwales.org.uk) er mwyn sicrhau lle. Dyddiau'r ddwy daith yw, bore dydd Mawrth 10fed Rhagfyr 11yb - 1yp neu fore Mercher 18fed Rhagfyr 11yb - 12.30yp.

*Gallaf argymhell y teithiau yma'n llwyr. Mae'r gwaith adfer y dirwedd a'r llynnoedd bron wedi ei gwblhau, ac yn nodedig. Gwelir y rhaeadrau'n disgyn a'r gwaith cerrig wnaed pan luniwyd y gwreiddiol yn rhoi gwefr. Cofiwch ddod a'ch camera! Carolyn Smethurst*

### Rhaglen Gweithgareddau Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Llanpumsaint

Codi Arian yn haws -- Os ydych yn siopa ar y We gallwch helpi' godi arian i'r Gymdeithas drwy gofrestru yn [www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta](https://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta) neu gysylltu ag Emma Brown. Os oes 'na rywun yn gallu

## **Y Newyddion o Glafdy Skanda Vale**

I gyflwyno fy hunan, Nicky yw fy enw, a fi yw'r Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Clinigol newydd yng Nghlafdy Skanda Vale yn Saron. Rydym yn wasanaeth rhad dan arweiniad Nysys sy'n gofalu am oedolion yn diodde' o afiechyd terfynol 'Rwy'n byw 'n lleol ac wedi bod yn rhan o'r Tîm Gwirfoddoli am flynyddoedd.

Flwyddyn nesaf rydym yn bwriadu cynyddu ein gofal, felly 'rwy'n cenhadu am galonnau cynnes a dwylo parod er mwyn gwireddu ein nod. Hoffwn glywed wrthoch pun a'i oes cefndir gofal neu nyrso gennych neu beidio. Y Tîm Gofal sydd brinnach o ddwylo, ond mae gennym nifer o gyfleoedd eraill, o gadw cwmni, i goginio neu gyrri, bod yn y dderbynfa neu arddio. Cariad yw'r nod fan hyn, ac mae'n anrhayeddedd a phleser i weithio mewn lle mor arbennig law yn llaw ac unigolion syfrdanol mor hael eu hamser a'u hymdrehch Felly os hoffech ymuno a ni dewch mewn cysylltiad.

### **Cyflwyno Diwrnod Ymaelodi – 25ain Ionawr 2020 – 10yb – 4 yp**

Felly ydych chi neu ffrind am wireddu aduniaid blwyddyn newydd dewch atom ar y dydd hwnnw. Yn y cyfamser os ydych am fynd ati i goginio rhywbeth cynnes at y tywydd oer gall ein llyfr coginio Appcloud fod o gymorth, ar gael o Google neu Apple. Daeth yr ysbrydoliaeth oddi wrth ein sylfaenydd oedd yn dipyn o law ar y coginio, yn hoff iawn o baratoi bwyd i westeion. Beth bynnag fyddai'r pryd yr oedd e' bob amser yn datgan mae cariad oedd y cynhwysyn pwysica', a gwelir ei hoff resais ar Appcloud. Aiff pob elw at y Clafdy.

[apps.apple.com/ap/id1317015392](http://apps.apple.com/ap/id1317015392)

[play.google.com/store/apps/details?id=com.skandroid.cookbook&hl=en.GB](http://play.google.com/store/apps/details?id=com.skandroid.cookbook&hl=en.GB)

Diolch am ddarllen a dymuniadau cynnes iawn oddi wrthon ni gyd.

Nicky Gilbert 01559 371222 [nicky.gilbert@skandavalehospice.org](mailto:nicky.gilbert@skandavalehospice.org)

### **Credyd Pensiwn - Sicrhewch eich bod yn derbyn yr hyn sy'n ddyledus i chi**

Fel **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**, rydw i wedi gweld y gwahaniaeth cadarnhaol y gall Credyd Pensiwn ei wneud i fywydau pobl hŷn ond bob blwyddyn mae miloedd o bobl hŷn yng Nghymru'n colli miliynau o bunnoedd o hawliadau ariannol sydd heb eu hawlio.

Os yw eich pensiwn wythnosol yn is na £167.25 (£255.25 i gyplau), efallai eich bod yn gymwys am Gredyd Pensiwn, sy'n ychwanegu at eich incwm ac yn datgloi ystod o hawliau eraill, megis disgownt ar y dreth gyngor, triniaeth ddeintyddol am ddim a chymorth gyda chostau tai. Efallai y bydd gennych hawl i Gredyd Pensiwn hyd yn oed os oes gennych eich cartref eich hun neu gynillion ac incwm arall. Ffoniwch y llinell hawlio Credyd Pensiwn nawr i sicrhau eich bod yn derbyn yr hyn sy'n ddyledus i chi!

 0800 99 1234

Cyfartaledd y Credyd Pensiwn sy'n cael ei dderbyn gan y rhai sy'n ei hawlio yw £58 yr wythnos, a allai gynyddu eich incwm gan gymaint â £3,000 y flwyddyn!

Mae'n hawdd iawn hawlio Credyd Pensiwn - dim ond gwneud galwad ffôn. Byddwch angen eich rhif yswiriant gwladol, eich manylion banc a gwybodaeth ynghylch eich incwm a chynillion.

yna rhowch wybod i Becky James 01267 253560

### **Curad Calon Llanpumsaint**

Dyma'r criw bach fu'n gyfrifol am sefydlu 4 Adfywiwr mewn gwahanol safleoedd yn yr ardal –

Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU

Ar wal Fferm yr Henfryn tua Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Festri Capel Nebo. SA33 6HN

## **Caersalem, Llanpumsaint**

‘O, deuwch, ffyddloniaid...’ Cwrdd carolau dwy-ieithog Rhagfyr 22ain am 2pm  
Eleri Morris 253895

## **Gwasanathau Capel Nebo**

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

## **Capel Ffynnonhenri**

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisoeedd Rhagfyr 2019, Ionawr a Chwefror 2020

Rhagfyr 15 2019 Gwasanaeth Nadolig am 1.30 y.p.

Ionawr 5 2020 Cwrdd Gweddi dechrau'r flwyddyn am 2.00 y.p.

Ionawr 19 2020 Cymundeb am 2.00 y.p. Parch Huw George

Ionawr 26 2020 Gwasanaeth Undebol yn y Graig, C.N.Emlyn am 5.00 y.p. Parch Alwyn Daniel

Chwefror 2 2020 Gwasanaeth am 2.00 y.p. Mrs Dwynwen Teifi

Chwefror 16 2020 Cymundeb am 2.00 y.p. Parch Huw George

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas  
Ysgrifennydd ar 01267 253686

## **Cór Llanpumsaint a'r Cylch**

Mae dathlu'r 40 wedi dechrau. Ar nos Fawrth Hydref 29 2019 cynhaliwyd Swper y Dathlu yn Neuadd Goffa Llanpumsaint. Cafwyd noson i'w chofio gan i dros 100 o fobl eistedd i gael bwyd. Roedd yr adloniant gwych o dan ofal Band Ukelele Caerfyrrdin a chafwyd canmoliaeth mawr i'r bwyd a'r adloniant. Yng ngofal y bwyd oedd Steve a Ros Evans Penbompren. Bwyd o'r safon uchaf fel arfer. Y digwyddiad nesaf fydd Cyngerdd y Nadolig yn Neuadd Bronwydd ar nos Sadwrn Rhagfyr 7 2019 gyda Dawnswyr Talog, Aelwyd Hafodwennog, Clybiau Ffermwyr Ifanc Penybont a Chapel Iwan a'r Cór. Dylai fod yn noson i'w chofio. Ar Chwefror 1 2020 byddwn yn cynnal ein Cyngerdd Blynnyddol yng Nghapel y Tabernacl Caerfyrrdin i ddechrau am 7.30 y.h. Gwyn Nicholas fydd yn arwain gyda Jeffrey Howard wrth yr organ. Hefyd yn ymddangos gyda'r Cór bydd Rhodri Prys Jones, Steffan Jones, Guto Jenkins a Gwen Morris. Fe fydd y tocynnau ar werth dechrau 2020.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2020 fe fyddwn yn teithio i ardal Brighton i gynnal cyngerdd (a mwynhau peth hefyd) ar y cýd gyda Chór Andrew Rees (cyn-aelod o'r Cór). Ac i orffen y dathlu bydd gennym Ginio'r Dathlu ddechrau mis Mehefin 2020 (dyddiad i'w gadarnhau) ym Mhantyrathro, Llangain.

Mae'r digwyddiad hyn yn agored i aelodau presennol a chyn aelodau o'r Cór. Ceir mwy o fanylion am y digwyddiad hyn yn yr argraffiad nesaf o Lais y Pentref.

## **Gofal Traed**

Dyma ddyddiadau'r ddua glinig nesaf yn y Neuadd Goffa am 10 o'r gloch y bore ar y a  
Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488  
fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwyniadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

## **Cyngor Cymuned Llanpumsaint**

Phil Jones 01267253512, [clerk@llanpumsaint.org.uk](mailto:clerk@llanpumsaint.org.uk) / [communitycouncil](#)

## Clwb Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo

Rhyw gychwyn cymysglyd fu hi i'r tymor hwn, ennill dwy, cyfartal mewn dwy a cholli 4, sy'n ein gadael yn yr wythfed safle yn y Gynghrair. Gellir gweld y canlyniadau llawn ar ein gwefan [www.llanpumsaintsmbc.org.uk](http://www.llanpumsaintsmbc.org.uk) <<http://www.llanpumsaintsmbc.org.uk>> gyda'r manylion i gyd. Mae 'na dair gem i'w chwarae cyn Nadolig, dwy adre' ac un i ffwrdd.

Cafodd ein Capten gychwyn bendigedig i'w dymor ef. Mi gofiwch i'r Llais y Llan flaenorol adrodd iddo gipio'r Tlws Efydd yng Nghystadleuaeth Iwerddon yn Belfast. Yna daeth yn bedwerydd yn gystadleuaeth Bedwarawd y Siroedd, yn cyd-chwarae gyda Gethin Edwards a dau o Bontargothi. Ymlaen i Dachwedd a dyma fe'n ennill Cystadleuaeth Unigol y Sir am yr ail dro, yn gyntaf o 64 ymgeisyydd. Arbennig! Yna cipio'r ail safle yn y Parau Sirol gyda Gethin Edwards. Aeth Aled ymlaen gynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Prydain yn Aberdeen yn Tachwedd a chyda Dafydd Howell o Bontargothi coronwyd y ddau yn bencampwyr Y Parau wedi gorchfygu cystadleuwyr brwd o Iwerddon, Yr Alban a Lloegr. (Gwelir y llun ar yr ail dudalen).

Croeso i chwaraewyr newydd rhwng 11 a 99 oed, ac mae gyda'm hyfforddwyr profiadol wrth law i estyn cymorth. Gwybodaeth bellach oddi wrth y Cadeirydd Derick Lock 01267 253524 neu'r Ysgrifenyddes Jill Edwards 01267 253474

## Eglwys Llanpumsaint

Bob Dydd Mawrth 2 – 3.30yp – Cylch y Pentre' – Eglwys Llanpumsaint.

Sul 1af Rhagfyr – 10yb Eglwys Sant Celynin – Gwasanaeth Pob Oed

Sadwrn 14eg Rhagfyr – 10 – 12yb Marchnad Misol Festri Llanllawddog

Sul 15fed Rhagfyr - 10yb Gwasanaeth Carolau Eglwys Llanllawddog

Mercher 18fed Rhagfyr 3.30 – 5yp - Eglwys Agored Llanpumsaint

Sul 22ain Rhagfyr - Gwasanaeth Preseb - Eglwys Llanpumsaint

Sul 22ain Rhagfyr – 6yh – Gwasanaeth Carolau – Sant Celynin Bronwydd.

Mawrth 24ain Rhagfyr - Noswyl Nadolig - Gwasanaethau Cymun 7yh Llanllawddog -

9yh Llanpumsaint - 11yh Celynin

Iau 16eg Ionawr 2020 - 3.30 – 5yp Eglwys Agored - Llanpumsaint

Sadwrn 25ain Ionawr – Gwasanaeth Coffa'r 'Holocaust' – Eglwys Llanpumsaint.

Tra'n ysgrifenni hyn ar y 12fed o Dachwedd mae'r paratoi am Y fodiad a'r Nadolig yn prysuro. Bydd rhai ohonom yn edrych ymlaen at y Nadolig ond i eraill gall fod yn gyfnod anodd, oherwydd argyfwng ariannol, neu rwyg teuluol neu gystudd efallai. Hoff ddelwedd y cyfryngau yw portreadu'r Nadolig y darlun rhamantus o deulu hapus o gwmpas bwrdd toreithiog o fwyd. Hyd yn oed i ni'n sy'n edrych ymlaen at y dathlu gwyddom na fydd popeth yn cwympo i'w le yn berffaith. Mae stori'r Enedigaeth ein hatgoffa nad ydym yn byw mewn byd perffaith. Dewisodd Duw anfon ei unig anedig fab atom nid yng ngwisg tywysog milwriaethus na rhyw frenin mewn plasty crand. Ond fel babi bregus a aned mewn stabl ymhell o adre'. Felly 'roedd y Nadolig cynta' hwnnw ymhell o fod yn berffaith.

Ar gyfartaedd bydd oedolyn yn y wlad hon yn gwario £868 ar ddathlu'r Nadolig, ond daeth Crist i fyd amherffaith i danlinellu pwysigrwydd pethau eraill na all arian eu prynu, sef cariad, caredigrwydd, cymuned a chyfathrach a Duw. Os allwn weithredu ar hynny'r Nadolig hwn, ni wnaeth ein byd yn berffaith, ond gellir gwella pethau, a chodi calon o argyfwng. Os dewch i'n heglwysi adeg yr Wyl bydd yna groeso i chi. Dewch fel chi'n dewis, sŵm un o'n berffaith. Beth bynnag eich amgylchiadau gallwch ddarganfod yma gariad, garedigrwydd a chymuned drwy'r flwyddyn oll.

Gan ddymuno i chi gyd Nadolig dedwydd - Y Parch Gaynor

Ceir manylion am wasanaethau a gweithgareddau ar ei Gwefan

Rev'd Gaynor j\_gaynor@hotmail.com , mobile 07796049509, Vicarage 01267 253158/

**Y flwyddyn 1919** - Wedi'r holl ddagor a'r galari mewn mynwentydd lleol i'r milwyr a gollwyd, daeth llawenydd yn hanner cynta'r flwyddyn 1919. Cynhalwyd nifer o gyngherddau ddatlau i groesawu'r byw yn ôl o'r rhyfel erchyll. Credwch neu beidio dychwelodd 13 i blwyf Llanpumsaint. Y cyntaf i fwynhau ei gyngerdd yn yr ysgol (byddai rhaid aros ugain mlynedd arall cyn cael neuadd), oedd Dafy Jones Penllwynuchel Nebo, a chasglwyd swm anrhyydeddus iawn o £14-13s- 3c iddo, ar y noson honno ar y 10fed o Ionawr. Yn fuan wedyn clywyd bloeddio llawen o gyfeiriad yr or saf wrth i'r bechgyn lleol groesawu Gwyn Morris, newydd ei rhyddhau o garchar hir amser yn yr Almaen. Mab y cyn- Ysgol Feistr Griff Morris a brawd hynaf Emrys laddwyd yn Ffrainc. Cyngherddau eto yn Chwefror, yn gyntaf i John Davies Tir-bach Bronwydd, ac wedyn i Johnny Lewis Station House a Tom Edwards Pen-y-bont wrth iddynt gyrraedd. Yr oedd yr olaf yn frawd i'r enwog William Edwards , Garej ac wedyn siop chwaraeon yng Nghaerfyddin. Cyn diwedd y mis 'roedd yr adroddwyr, y cantorion a'r plant 'nol wrth eu gwaith yn yr ysgol, wrth i Lewis Jones Cerrigbychain, Tom Lewis , 'nol o'r Llynges, a B Jones gynt o Lanrafon, gasglu eu rhoddion. Gwelwyd yr ysgol yn orlawn unwaith eto ddechrau Mawrth wrth i bedwar arall ail ymuno a'r gymuned. Daeth Thomas Bowen Cwmeinon, i fod yn wyneb cyfarwydd am ddegawdau ar ôl hynny, y dyn Post Gwledig oedd yn byw mewn tŷ heb do. Willie Thomas Gladstone Hall, W Bishop Llethr a D Rees Teras Gwili, oedd y tri arall anrhyydeddwyd y noson honno. Ddiwedd mis Mai dychwelodd cymeriad unigryw arall, sef Tom Tomos Tafarn y Railwe, fu wedyn am flynyddoedd yn dosbarthu glo o'r or saf yn ei drap a'i gaseg enwog Polly. Daeth penllanw i'r holl weithgareddau pan gynhalwyd Diwrnod Dathlu Heddwch ym mis Gorffennaf. Te mawr yn yr ysgol, gorymdaith drwy'r pentre', chwaraeon a chystadlu ar gae'r Felin, rhagor o De wedyn, cyn y cyngerdd mawreddog gyda Chôr enwog Llanpumsaint gan arweiniad Ben Daniels Gerwyn Villa yn ben ar y cyfan. Wedyn ar y Sul Cwrdd Gweddi Cyd- Enwadol i'r holl gapeli ac eglwys yn Bethel i ddiolch i Dduw am heddwch. Ac 'roedd gwell i ddod i'r Côr yna wrth iddynt osod Llanpumsaint ar y map cenedlaethol, drwy ennill y Brif Gorawl yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyddin. O flaen cynulleidfa o filoedd gorchfygwyd 6 Côr arall i ennill yr ugain punt. Ond i Ben Daniels 'roedd y clod a'r anrhyydedd yn llawer mwy na hynny. Cyn cloi'r mwdwl ar y rhyfel rhaid nodi pa mor gefnogol fu'r gymdeithas wledig i'r milwyr wrth iddynt ddychwelid. Mewn cyfnod anodd wedi holl gwtogi'r rhyfel, ac mewn llai na chwe mis, aeth y dwylo'n aml i boedi hael. Casglwyd ar gyfartaledd o gwmpas naw i ddeg punt yr un i'r tri a'r ddeg wnaeth gyrraedd adre, ac ar ben hynny daeth £55 arall i law ddydd Dathlu'r Heddwch. Da iawn chi! Rhaid nodi un peth arall. Er i nifer ohonom adnabod a chyfeillachu gyda'r milwyr wnaeth ddychwelid dros ddegawdau wedyn, ni fu'r rhyfel honno'n bwnc trafod. Gwell gan bawb anghofio hoff erchylltra, y diodde' a'r gwastraff bywyd diangen. Taw Piau! Mae'r newyddion arall am y flwyddyn honno'n amrywiol. Bu raid ail-hysbysebu am Swyddog Meddygol i Cynwil a Llanpumsaint oherwydd bod yr enwog Doctor Yorath yn symud i Bontyberem. Dywedodd y Doctor fod yr hewl i Gynwyl mor wael nes iddi strywo tri motor beic iddo. Heol beryglus hefyd, oherwydd mi foelodd trap a phoni dwy ferch gan dorri dysenni o wyau oedd ynddo. A chi'n gwbot pwy o'n nhw? Dwy ferch y Gweinidog a'r emynydd Elfed o Flaen-y-coed, 'nol yn ymweld â'r ardal o Lundain. Chetho'n nhw ddim dolur, ond fuodd Gof Trelech yn llai lwcus. Fe'i lladdwyd pan folltiodd ei geffyl i foelyd y gambo. Yna digwyddiad arall, ar hewl Llanpumsaint ger Ffosmaen a Helfa Hall. Bu rhyw gaffyffl rhwng y car modur oedd yn cludo Bronwen Thomas i'w phriodas yn dre, gyda chart a cheffyl. Cyrhaeddodd y briodferch yn hwyr iawn, druan o'r priodfab! Wrth anelu at ddal y trêñ 'nol i Landysul cwymppodd Anne Mathias 76 oed yn farw ger Gorsaf Llanpumsaint. Newydd fod yn ymweld â'i rhieni, 88 ac 93 oed yn Llanllawddog, credwch neu beidio!

Daeth sawl fferm ar y farchnad y flwyddyn honno. Gwerthwyd ystâd Ffosmaen, oedd yn cynnwys Llwyniar, Gwarcwm a Manbras (Panteg wedyn) am £2,800. Ond penderfynwyd ail hysbysebu Pantyfedwen a'i deunaw erw, er y bu cynnig 0 £700 amdani. Daeth Pengraigyrystum yn Nebo a Pistyllgwyn yn Bronwydd hefyd ar y farchnad. A phan ddaeth hi'n hydref gwelwyd sawl arwtherthiant ar sawl clos wrth i ffermydd newid dwylo, Glancorwg yn Llanpumsaint a Fferm Cwmdwyfran uwchben y pentre' hwnnw. Newyddion da hefyd wrth i Gyngor Caerfyddin gytuno i osod pont dros yr afon ger Glanyryns, pont sydd wedi dychwelid i'r newyddion yn ddiweddar. Gyda llaw, os i chi wedi gweld par hynafol o hen ddanne dodi rhywle ar y ffordd sha Bronwydd, ffoniwch y Jurnal. Cynigodd y perchennog wobr ariannol am ei ffeindio yn Medi 1919.



# Village Voice December 2019

**Copy Date for next Edition 24<sup>th</sup> January 2020**

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange  
[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk). Please send items to  
[info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk) or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

As we reach the end of another year, it is time to reflect on the residents who have moved from the village, and those who passed away in 2019. We will remember them with kind thoughts and good memories. It is also a good time to welcome the new residents who have chosen Llanpumsaint as their home. We hope that you enjoy living in our village and will support the many activities throughout the year.

We wish everyone in the village a Merry Christmas and a happy and healthy 2020, and we hope to see you at village events through the year. Carolyn Smethurst, Llanpumsaint Community Information Exchange

Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice

Santa's Grotto, Sion Corn Grotto

## GORYMDAITH NOSWYL NADOLIG SION CORN

Dechrau yn Nant yr Ynys am 1 yh, Rhagfyr 24<sup>ain</sup>, a gorffen yn Neuadd Llanpumsaint

### CHRISTMAS EVE SANTA PARADE

Start at Nant yr Ynys at 1pm, December 24<sup>th</sup>, and finish at Llanpumsaint Hall

Te a Choffi Mins Peis

Tea & Coffee Mince Pies

Proceeds towards Special Care Baby Unit (SCBU), Glangwili Hospital and Llanpumsaint Welfare & Recreation Association (The Park)

Eiw tuag at Uned Gofal Arbennig Babano, Ysbyty Glangwili a Chymdeithas Lles & Hamdden Llanpumsaint (Y Parc)

CWNFEST Cwyl Cwn/Dog Festival

# Xmas BINGO

10/12/2019 7:00pm

AT RAILWAY INN, LLANPUMSAINT

£15pp 10 GAMES with CURRY & CHIPS & One for the road Game. Winner takes all cash prize

cwnfest@gmail.com



**Eglwys  
Llanllawddog**

**Marchnad Fisol**  
**Monthly Market**

**Ail Sadwrn bob mis**  
**Second Saturday every month**  
**10-12am**  
**10/08/19, 14/09/19, 12/10/19**  
**Neuadd Llanllawddog**  
**Llanllawddog Church Hall.**

**Crefftwyr Lleol a nwyddau**  
**Local crafts and produce**  
**Bric a brac**  
**Llyfrau/ books**

I gael stodin (£5), cysylltwch â  
If you require a stall (£5), contact  
[Fran.j.dixon@btinternet.com](mailto:Fran.j.dixon@btinternet.com)  
078 151 47239

  
  
  




Aled Edwards & Dafydd Howells



Arwyn Thomas at  
Tenovus Carmarthen, after presenting a cheque for £2,000.  
Collected from numerous contributions and sales of books



Restored Dam and Lake, slowly refilling  
Botanic Garden



Carmarthen Ukulele Band at Hollybrook – Good time was had by all!



With a combination of woody debris and plastics, sometimes the fish simply cannot get through to reach the good spawning gravels!

## **What's on in the Village – please put these dates in your diary**

Every Monday and Thursday from September 2<sup>nd</sup> Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall  
Every Tuesday 2.00 – 3.30 Village Circle Llanpumsaint Church  
Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1-hour session.  
Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643  
Every Wednesday 10.45- 11.45 Mobile Library outside Memorial Hall, details 224830  
Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall from 12<sup>th</sup> September  
Every Tuesday 2.00 – 4.00 and Friday 1.00 – 3.00 Mobile Post Office, layby Bryn y Wawr  
Every Friday 11.15 – 12.15 Mobile Post office Outside Bronwydd Hall  
Every Third Monday – Merched y Wawr Memorial Hall  
Every Friday 10.00 – 12 noon Ti a Fi sessions Cylch Meithrin Bronwydd Hall  
Every Second Saturday in the month, Monthly Market 10 – 12 Llanllawddog Church Hall  
December 10 Tuesday 7.00 Bingo At Railway Inn  
December 11 Mystery Trip/Christmas Dinner Club Gwili 60+  
December 11 Wednesday 10.00 Foot Clinic Llanpumsaint Memorial Hall  
December 13 Friday Cylch Meithrin Christmas Concert & Coffee Morning Bronwydd Hall  
December 15 Sunday 1.30 Christmas Service Ffynnon Henri Chapel  
December 18 Wednesday 3.30 – 5.00 Open Church Llanpumsaint  
December 22 Sunday 11.00 Crib Service Llanpumsaint Church  
December 22 Sunday 2.00 Bi-lingual Carol Service Caersalem  
December 22 Sunday 6.00 Carol Service St Celenin Church Bronwydd  
December 24 Tuesday 1.00 Santa Parade from Nant yr Ynys  
December 24 Tuesday Services 7.00 Llanllawddog, 9.00 Llanpumsaint, 11.00 St Celyn  
December 29 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn  
January 7 Wednesday 10.30 Table Tennis Memorial Hall  
January 15 Wednesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall  
January 16 Thursday 3.30 – 5.00 Open Church Llanpumsaint  
January 22 Wednesday 6.30 Public Meeting re Shop Survey Memorial Hall  
January 25 Saturday 10.00 – 4.00 Volumteer Day Skanda Vale Hospice Saron  
January 25 Saturday 10.30 Holocaust Memorial Service Llanpumsaint Church  
January 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall  
January 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn  
January 27 Monday Clwbgwili 60+ 2.00 Bronwydd Hall  
February 1 Saturday Annual Choir Concert Tabernacl Chapel Carmarthen  
February 5 Wednesday 10.00 Foot Clinic Llanpumsaint Memorial Hall  
February 14 Friday 7.30 Vintage Dance Bancyfelin Village Hall  
February 23 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall  
February 23 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn  
February 24 Monday Clwbgwili 60+ 2.00 Bronwydd Hall  
February 29 Saturday 10.30 Annual General Meeting Allotment Association at Allotment Site  
March 18 Wednesday 10.00 Foot Clinic Llanpumsaint Memorial Hall

## **SANTA PARADE CHRISTMAS EVE**

- The Parade will include Santa on his Sleigh with his helpers.
- It will start from Nant Yr Ynys at 1.00 P.M, then on to The Railway Inn, Bryn Y Wawr, Penbontbren, Llandre View, The Church, Bro Cerwyn and Parc Celynin.
